



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar Drywydd Dysgu: Geirfa



Rydym wrthi'n datblygu rhestr o dermau i helpu ymarferwyr a fydd yn defnyddio'r Map llwybrau a deunyddiau ehangach Ar Drywydd Dysgu drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Isod, mae rhai enghreifftiau o ddiffiniadau.

Hoffem eich gwahodd i wneud sylwadau ynghylch y termau hyd yma. Mae croeso i chi hefyd awgrymu termau ychwanegol o'r Map llwybrau, y canllawiau a/neu'r llyfryn asesu i'w cynnwys yn fersiwn derfynol yr eirfa.

Dylech anfon eich sylwadau at asesu@llyw.cymru.

Achos ac effaith	(Cause and effect) Defnyddir y term 'achos ac effaith' (ymwybyddiaeth o ddibyniaeth) i gyfleu'r ddealltwriaeth bod gweithred benodol yn achosi effaith benodol (e.e. y bydd gwasgu switsh yn gwneud i degan ddechrau gweithio neu y bydd taro rhes o glychau yn creu sŵn). Mae'n debygol hefyd y bydd dysgwyr sydd wedi dysgu am achos ac effaith yn dangos arwyddion o bleser neu gyffro sy'n dynodi eu bod yn ymwybodol mai eu gweithred nhw sydd wedi creu'r wobwr.
Amgylchedd sy'n union o'i amgylch	(Immediate environment) Mae'r amgylchedd sy'n union o amgylch y dysgwr yn cynnwys gwrthrychau, pobl ac arwynebau. Mae'r dysgwr yn debygol o allu cyrraedd gwrthrychau o fewn yr amgylchedd hwn drwy wneud symudiad bach (e.e. symud ei droed ymlaen ychydig).
Amgylchedd ymatebol	(Reactive environment) Mae amgylcheddau, arwynebau, defnyddiau a gwrthrychau ymatebol wedi'u cynllunio i greu effaith fawr drwy ychydig iawn o ymdrech (e.e. blanced ofod, bwrdd synhwyraidd).
Bwrdd synhwyraidd	(Resonance board) Darn tenau o bren yw bwrdd synhwyraidd y gosodir plentyn arno. Mae'n darparu adborth synhwyraidd drwy ddirgrynu ac atseinio wrth i'r plentyn symud, gan ei annog i symud a lleisio.
Gweithredoedd damweiniol	(Accidental actions) Mae gweithredoedd damweiniol yn weithredoedd gwirfoddol (h.y. o fewn rheolaeth y sawl sy'n eu cyflawni) ond yn ddamweiniol o ran eu heffaith (e.e. bydd dysgwr yn symud ei fraich ychydig ac yn dod i gysylltiad â dol Bobo sy'n gwneud sŵn).

Gwneud rhywbeth ar y cyd â'r dysgwr	(Coactive involvement) Mae gwneud rhywbeth ar y cyd yn golygu cydweithio, ac yng nghyd-destun Ar Drywydd Dysgu mae'n golygu bod yr ymarferydd yn symud gyda'r dysgwr (e.e. siglo'n ôl ac ymlaen gyda'r dysgwr mewn cân fel 'Cwch bach yn rhwyfo'). Mae gwneud rhywbeth ar y cyd yn golygu bod y ddau berson yn cymryd rhan weithredol i ryw raddau (gweler tudalen 11 o Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau).
Gyda chymorth	(Supported) Yng nghyd-destun Ar Drywydd Dysgu, defnyddir y term 'gyda chymorth' i ddynodi bod yr ymarferydd yn creu sgaffald ar gyfer ymateb y dysgwr drwy: <ul style="list-style-type: none">• drefnu'r amgylchedd mewn ffordd sy'n bodloni gofynion y dysgwr (e.e. gan sicrhau bod y dysgwr mewn safle corfforol priodol)• darparu cyfle clir, gor-amlwg hyd yn oed, i'r dysgwr gymryd ei dro• ysgogi'r dysgwr i ymateb a chymryd ei dro• dehongli amseru ymateb y dysgwr i olygu ei fod yn cymryd ei dro• aros yn gorfforol agos ac yn bresennol drwy gydol y sesiwn.
Nodwedd bersonol	(Personal identifier) Rhywbeth sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn yw nodwedd bersonol, fel rheol pan fydd yn sefyll neu'n eistedd yn agos at y dysgwr. Yn ddelfrydol, dylai fod yn rhan annatod o'r person (e.e. gwallt hir, barf). Fodd bynnag, gall fod yn bersawr unigryw. Y rhagdybiaeth yw y gall helpu dysgwr i adnabod y person, yn benodol efallai os oes nam ar synhwyrâu'r dysgwr.
Propriodderbyniaeth	(Proprioception) Propriodderbyniaeth yw ymwybyddiaeth o le'r corff mewn perthynas â'r gofod o'i amgylch (e.e. ymwybyddiaeth dysgwr ei fod yn cael ei siglo'n ysgafn mewn blanced). Dyma rai enghreifftiau eraill o bropriodderbyniaeth: <ul style="list-style-type: none">• bod yn ymwybodol o'r arwyneb rydych yn gorwedd arno (e.e. bwrdd synhwyrdd cymharol galed neu flanced feddal)• teimlo'n saff ac wedi'ch cynnal mewn cadair a addaswyd yn briodol.

Talu sylw ar y cyd (Joint attention) Mae talu sylw ar y cyd yn digwydd pan fydd dau berson (e.e. y dysgwr a'r partner cyfathrebu) yn dangos diddordeb yn yr un gwrthrych neu ddigwyddiad (e.e. drwy ystumiau neu edrych) ac yn deall bod gan y naill a'r llall ddiddordeb ynddo. Nid cael gafael ar y gwrthrych sy'n bwysig ond rhannu pleser neu ddiddordeb yn rhywbeth. Mae'r sgil hon yn hanfodol mewn datblygiad cymdeithasol ac yn natblygiad iaith (gweler hefyd 'Thema 7: Bod yn gymdeithasol' yn [Ar Drywydd Dysgu: Llyfryn asesu](#)).

Ymreolaeth (Autonomy) Mewn ystyr ymarferol, ymreolaeth yw gallu'r unigolyn i reoli sut mae'n byw o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd, credoau a dewisiadau personol. Mewn sefyllfa addysgol, mae'n golygu bod y dysgwr yn gwneud dewisiadau cytbwys ynghylch y gweithgareddau y mae'n eu dilyn (gweler 'Thema 10: Gweithredu i dynnu sylw eraill' yn [Ar Drywydd Dysgu: Llyfryn asesu](#)). Mae gan y syniad o ymreolaeth berthynas gref ag urddas cynhenid pob person. Mewn termau athronyddol, deallir yn gyffredinol bod ymreolaeth yn cyfeirio at allu'r unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus, o'i wirfodd ei hun (Stanford Dictionary of Philosophy). Gellir cefnogi a datblygu ymreolaeth a'r gallu i wneud penderfyniadau. Ymreolaeth yw carreg filltir olaf Ar Drywydd Dysgu, er mai mewn ystyr eithaf cyfyng y caiff y term ei ddefnyddio yma. Dyma rai enghreifftiau o ymreolaeth yng nghyd-destun Ar Drywydd Dysgu:

- bydd dysgwr yn penderfynu ei fod yn sychedig ac am gael diod – bydd yn llwyddo i dynnu sylw ymarferydd drwy dynnu ar ei ddillad, ac yna'n dewis y symbol am 'diod' ar ffrâm E-tran
- bydd dysgwr yn cadw ei geg ar gau pan gynigir cinio iddo yn y neuadd fwyta swllyd ond yn bwyta pan fydd ymarferydd, wrth arbrofi â rhesymau posibl dros ei ymddygiad, yn cynnig cinio iddo mewn amgylchedd tawel.

Gellir parhau i ddatblygu ymreolaeth wrth i'r dysgwr symud ymlaen o drefniadau Ar Drywydd Dysgu (e.e. i leoliadau ar gyfer oedolion).

Ymwybyddiaeth o ddibyniaeth

Gweler 'Achos ac effaith'.

Ystafell Fach

(Little Room) Gofod a ddyfeisiwyd yn wreiddiol gan Dr Lili Nielsen yw'r 'Ystafell Fach', lle gall plentyn ymchwilio i'w amgylchedd yn ddiogel. Caiff teganau a gwrthrychau bob dydd eraill sy'n darparu adborth synhwyrdd cryf eu hongian o'r nenfwd â llinynnau elastig, ac mae'r plentyn yn rhydd i ymchwilio i'r hyn y mae'n ei ddarganfod wrth symud ei ddwylo a'i goesau, ac arbrofi â'r eitemau hyn. Dylai'r eitemau fod yn rhai cadarn a dylid ystyried diogelwch y plentyn wrth eu dewis. I blant sy'n gallu gweld i ryw raddau, gellir defnyddio eitemau lliwgar a llachar. Ni ddylid defnyddio bocsys cardbord i greu ystafelloedd bach, gan ei bod yn hollbwysig gallu arsylwi ar y plentyn yn yr Ystafell Fach, yn ogystal â sicrhau digon o awyr.

(Wedi'i addasu a'i gyfieithu o www.pathstoliteracy.org/blog/remembering-lili-nielsen-and-her-legacy-active-learning.)

